

Cofnodion Cyfarfod 2/5/2024

Presennol: Y Maer Dilys Evans, Rhys Evans, Jacqueline Allen, Eifion Roberts, Fiona Hopkins, Sion McGuinness, Eluned Jones, Eric Williams a Huw Antur (*Clerc*).

Hefyd yn bresennol: Y Cyng. Dilwyn Morgan (Aelod lleol Cyngor Gwynedd).

Ymddiheuriadau: Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Tony Parry, Clare Mackintosh a Moira Mai.

Cyhoedd: Neb yn bresennol.

Triathlon 2024: Croesawyd trefnwyr newydd y Triathlon, sef Tim Lloyd a Rhys Pilley o gwmni Camu i'r Copa i'r cyfarfod. Roeddent yn cydnabod fod problemau wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf, a bod angen codi hyder pawb yn y digwyddiad. Nodwyd eu bod yn bwriadu cydweithio gyda mudiadau cymunedol lleol, busnesau lleol a darparwyr llety, ac hefyd yn anelu i leihau unrhyw aflonyddiad ar yr ardal leol drwy leihau cyfnod cau'r ffordd etc. Nodwyd y bydd angen stiwardiaid lleol, a'u bod yn bwriadu parcio wrth y Clwb Rygbi. Cadarnhawyd dyddiad y Triathlon am 2024, sef Medi 1af, ond eu bod yn bwriadu symud y dyddiad yn 2025 i ddiwedd mis Mai. Nodwyd eu bod yn barod iawn i rannu syniadau newydd i wella'r digwyddiad, a'u bod yn annog busnesau lleol i gysylltu hefo nhw i drafod cydweithio. Gofynnwyd iddyn nhw gadw mewn cysylltiad hefo'r Cyngor a Grŵp Busnesau'r Bala dros yr haf, a gofynnwyd iddyn nhw ddefnyddio'r brandio Y Bala – Yma o Hyd wrth hyrwyddo'r digwyddiad am 2024 – y clerc i anfon y logo ymlaen i'r trefnwyr.

- Y Maer:** Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Maer, Dilys Evans, a diolchodd am y fraint o gael ei hethol yn faer y dref.
- Buddiant:** Datganwyd buddiant gan y Cyng Rhys Evans ac Eifion Roberts yn eitem 8.4, sef cais cynllunio 2 Heol Ffrydan, a chan y Cyng Eifion Roberts yn eitem 8(v) sef cais Ysgol Godre'r Berwyn am gymorth ariannol.
- Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 11/4/24.
- Materion y Clerc / Materion yn codi:**
 - Sedd Wag y Cyngor: Cytunwyd i symud ymlaen i hysbysebu'r cyfle i alw etholiad. Cytunwyd hefyd i archebu plac i anrhegu John C Williams am ei waith dros y cyngor a'r dref ar hyd y blynyddoedd.
 - Cynllun Creu Lle: Nodwyd fod Cyngor Gwynedd wedi derbyn adroddiad drafft gan gwmni The Urbanists, a bod cyfle i gyflwyno sylwadau. Nodwyd fod Fiona Hopkins,

Jacque Allen, Rhys Evans a'r Clerc wedi mynychu cyfarfod gyda'r cwmni ar Fai 1af ac wedi rhoi eu sylwadau cychwynnol arno.

- iii. Cynllun Celf Canol Trefi: Nodwyd afod y gwaith cynllunio wedi cychwyn ar y gwahanol safleoedd i osod gwaith celf yn y dref.
- iv. Mainc y Stryd Fawr – adroddwyd fod trefniadau yn eu lle i drwsio'r fainc ger cofeb Tom Ellis.
- v. Basgedi Blodau: Adroddwyd fod y basgedi wedi eu harchebu. Cytunwyd i awdurdodi'r taliad a'r hawliad grant gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.
- vi. Materion Stryd Fawr – gofynnwyd i'r Clerc a'r Cyng Dilwyn Morgan gydlyn trefniadau'r cyfarfod gyda NMWTRA ac Adran Traffig Cyngor Gwynedd.
- vii. Cynllun Fynyls Ffenestri Siopau Gweigion: Nodwyd fod Cyngor Gwynedd yn hapus i ddefnyddio brandio Bala – Yma o Hyd ar y ffenestri. Bydd angen caniatâd perchenogion y siopau i wneud hyn.
- viii. Coetiroedd bach: Adroddwyd fod swyddogion y Parc cenedlaethol yn mynd i gysylltu hefo Adran Eiddo Cyngor Gwynedd i drafod plannu coetir ar y tir ger cae pêldroed Ysgol Godre'r Berwyn.
- ix. Gwefan y Bala: Nodwyd y bydd y mater yma yn cael sylw gan Is Bwyllgor Twristiaeth Gynaliadwy'r cyngor.
- x. Cyfarfod Heddlu Gogledd Cymru: Atgoffwyd yr aelodau o'r cyfarfod gyda'r heddlu ar Fai 3ydd.
- xi. Canolfan Bro Tegid: Adroddwyd fod Pwyllgor Rheoli Canolfan Bro Tegid wedi penderfynu diddymu'r pwyllgor a throsglwyddo rheolaeth y ganolfan i Gwmni Pum Plwy Penllyn. Nodwyd fod Cyngor Gwynedd yn paratoi prydles newydd gyda'r cwmni, ac na fydd angen i'r Cyngor Tref ddal y brydles newydd fel y trefniant blaenorol, ond y bydd trefniant 'Tenancy at Will' yn ei le hyd nes bydd y brydles newydd yn barod.

5. **Cyngor Gwynedd:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Dilwyn Morgan, pryd y cyfeiriodd at farwolaeth y diweddar John James , un a wasanaethodd y cyngor a'r dref am flynyddoedd lawer. Soniodd am ffilmio rhaglen Prosiect Pum Mil yn yr ardd gymunedol ar Fai 11eg, am brosiect Llwybr Diogel i'r Ysgol, ymgynghoriad ar gyfyngiad cyflymder o 20mya ac am gyfarfod ar Fai 20fed i drafod dyfodol safle Ysgol Bro Tegid.

6. **Y Bala – Yma o Hyd:** Adroddwyd na fu cyfarfod ers y cyfarfod diweddaraf o'r Cyngor Tref.

7. **Is-bwyllgorau:** Nodwyd y bydd angen cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid cyn cyflwyno cyfrifon y cyngor i'r Archwiliwr Mewnol.

Cynrychiolwyr ar fudiadau:

i) Un Llais Cymru - Meirionnydd: Nodwyd y bydd y cyfarfod nesaf ar Fai 8fed.

8. **Materion Cynllunio: NP5/53/576A:** Estyniad i reilffordd trac cul Llyn Tegid i gynnwys 1200m o drac reilffordd, croesfan reilffordd, codi gorsaf reilffordd newydd, adeiladau ategol ar gyfer injan drên a cherbydau, blwch signal ynghyd a datblygiad cysylltiol (Ail-gyflwyniad). Tir yn y Bala.

NP5/70/LB28B: Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer newidiadau i'r bont droed gan gynnwys gosod trac trêrn a gwaith cysylltiedig (Ail-gyflwyniad). Pont Mwnwgl y Llyn.

NP5/53/L33H: Cais ôl-weithredol i osod ffenestri UPVC ar ddrychiad blaen Gwesty'r Plas Coch, 52 Stryd Fawr, Y Bala. LL23 7AB.

NP5/53/345A. Ail-fodelu Fflatiau 1, 2 a 3 i greu eiddo 2 ystafell wely ac eiddo 3 ystafell wely, cael gwared ar y simnai bresennol, adeiladu estyniad cefn a gosod ffenestr to a phaneli solar newydd, 2 Heol Ffrydan, Y Bala. LL23 7RT.

Trafodwyd y 4 cais cynllunio uchod a chytunwyd i'w cefnogi.

9. Materion Cyllid:

- i. Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £15,240.56 yn y cyfri cyfredol, £16,507.89 yn y cyfri cadw a £726.94 yng Nghronfa'r Maer. Nodwyd fod balans o £4,848.50 wedi ei glustnodi tuag at gostau dathliadau Y Bala – Yma o Hyd.
- ii. Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws, taliad cyflog y Clerc, anfoneb Cyngor Gwynedd am rent Tomen y Bala, anfonebau sticeri a chod QR Y Bala – Yma o Hyd ac anfoneb Gerallt Williams am dorri gwrych llwybr cyhoeddus ger Bro Eryl.
- iii. Archwilio Cymru: Nodwyd derbyn eu llythyr dyddiedig 23 Ebrill ynglŷn â'r cylch archwilio.
- iv. Lwfans i Aelodau: Nodwyd fod y mater hwn wedi ei ystyried yn y Cyfarfod Blynyddol.
- v. Cais Ysgol Godre'r Berwyn am gymorth ariannol: Cytunwyd i ofyn i'r Maer roi cyfraniad o Gronfa'r Maer.

10. Gohebiaeth:

- i. Cynhadledd Un Llais Cymru – Derbyniwyd gwybodaeth am gynhadledd Arfer Arloesol ar Orffennaf 3ydd.
- ii. Hyfforddiant Un Llais Cymru - – derbyniwyd copi o raglen hyfforddiant Mai/Mehefin.
- iii. Un Llais Cymru: Derbyniwyd copi o Ffurf Adroddiad Blynyddol ar gyfer y cyngor.
- iv. Perfformiad 'Daughter of Bala': Derbyniwyd gwybodaeth am y perfformiad yma ar Orffennaf 9fed fydd yn seiliedig ar fywyd Betsi Cadwaladr.
- v. Ceir Trydan: Derbyniwyd copi o lythyr Cyngor Nefyn i Gyngor Gwynedd yn nodi eu gwrthwynebiad i'r bwriad o brynu fflyd o geir trydan i'r cyngor.
- vi. Cymdeithas yr Iaith Gymraeg – Addysg Gymraeg: Derbyniwyd copi o adroddiad ar addysg Gymraeg a gyflwynwyd i Senedd Cymru fis Ebrill.
- vii. Rhaglen Waith Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth am waith Tim Tacluso Ardal Ni yn y Bala ar Fai 6-10.
- viii. Rhandiroedd – derbyniwyd e-bost yn holi am randoedd yn y dref. Nodwyd fod trafodaethau yn digwydd ar hyn o bryd am ddyfodol tiroedd ger safle Ysgol Bro Tegid.
- ix. Cyd Bwyllgor Comisiynau Gwasanaeth Iechyd Gwladol: Derbyniwyd diweddariad ar benderfyniadau diweddar ynglŷn â gwasanaeth yr Ambiwylans Awyr.
- x. Ardal Ni: Derbyniwyd gwahoddiad i gyfarfod ymgynghorol ar Fai 20fed, a gofynnwyd i'r Cyng Dilys Evans, Fiona Hopkins a Dilwyn Morgan gynrychioli'r Cyngor Tref.

- xi. Un Llais Cymru – Adnoddau Bioamrywiaeth: Nodwyd y bydd lansiad o’r adnoddau yma yn digwydd mewn cyflwyniad ar lein ar Fai 21ain.

11. Materion lleol y Cyngorwyr Tref:

- i) Cinio Ysgol Godre’r Berwyn: Tynnwyd sylw aelodau’r cyngor at y ffaith nad oes cinio ysgol wedi ei ddarparu i rai disgyblion ysgol ers tro. Oherwydd effaith hyn ar y disgyblion cytunwyd i ysgrifennu at Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd ac at Gomisiynydd Plant Cymru yn tynnu eu sylw at y sefyllfa ac yn apelio am eu cymorth i ddatrys y sefyllfa.
- ii) Enwau a dyddiadau allweddol arwyr lleol y Bala: Trafodwyd yr angen i gofnodi dyddiadau allweddol arwyr lleol y Bala – hyn i’w drafod yn fwy manwl yn y cyfarfod nesa o’r cyngor.

12. Daeth y cyfarfod i ben am 9.10pm a bydd y cyfarfod nesaf Nos Iau 6 Mehefin 2024.